



## NEWYDDION MEDI 2020

Taith Cymdeithas Hynafiaethwyr Môn  
Dydd Sadwrn 19eg Medi 2020 am 2:00 o'r gloch.  
Tre Gôf, Bryn Tŵr a Din Dryfol

### GOFYNNIR I CHI DDARLLEN Y CANLYNOL YN OFALUS CYN PENDERFYNU CYMRYD RHAN YN Y DAITH

#### CANLLAWIAU

Mewn arolwg diweddar (Gorff./Awst 2020), roedd mwyafrif sylweddol aelodau Cymdeithas Hynafiaethwyr Môn (56%) yn awyddus gweld y Gymdeithas yn trefnu taith ymweld yn ystod tymor yr Hydref eleni (gan gymryd bydd pob gofal posib yn cael ei gymryd i atal lledaeniad y coronafeirws). Mae'r Pwyllgor wedi ymateb i ddymuniad yr aelodau ac wedi dyfeisio taith fydd o ddiddordeb ond hefyd yn ail-greu ymdeimlad o normalrwydd ymysg yr aelodau.

Cyn datgan diddordeb yn y daith, rhaid talu sylw i bob un o'r pwyntiau canlynol ac yna cadarnhau eich bod wedi eu darllen ac yn barod i gydymffurfio â'r trefniadau.

#### A. Lleoliad a natur y daith

Bydd y daith yn cynnwys tri safle ym mhlwyf Cerrigceinwen ym Môn. Hen fferm sy'n dangos nifer o nodweddion diddorol yw'r safle cyntaf; ffoledd ar ffurf castell yw'r ail a Siambr Gladdu Neolithig sydd wedi mynd yn anghof i lawer o bobl yw'r trydydd. Caiff y 30 fydd yn dod ar y daith gyfarwyddiadau llawn o flaen llaw ar sut i gyrraedd y safleoedd. Bydd y daith yn parhau am ddwy awr a hanner i dair awr ar y mwyaf.

#### B. Y Tirwedd a Symudoldeb

Mae safle Tre Gôf yn gofyn cerdded am oddeutu 200 metr (yno ac yn ol) ar lwybr gwastad a chaled. Mae'r safle Bryn Tŵr cyfagos yn gofyn dringo grisiau cerrig neu lethr gweddol serth, ac yna un darn o dir mwy garw. Bydd dod i lawr o'r ffoledd yn fwy anodd a bydd rhaid i bawb fod yn barod i ddefnyddio ffyn cerdded er mwyn lleihau risg o ddamwain. Mae'r fynedfa at Din Dryfol yn gofyn cerdded tracffordd fferm, lle dylid cymryd gofal, ac yna croesi cae o borfa. Mae'r 25 metr olaf at y Gloddfa yn dir garw ac anodd ac felly dylid eto ddefnyddio ffyn cerdded.



### C. Parcio

Bydd rheolaeth ar y parcio ar safle Bryn Tŵr /Tre Gôf (SH 414 743).ac ar safle

Fferam Rhosydd/ Din Dryfol. Bydd digon o le i bawb ond gofynnir i chi ddilyn cyfarwyddiadau'r rheolwyr traffig er mwyn cadw'r mydedfeydd yn glir fel bo mod di gerbydau argyfwng allu defnyddio'r ffyrdd/tracffyrdd yn rhwydd pebai angen.

### D. Materion Covid-19

1. Bydd gofyn i BAWB sy'n mynychu'r daith fod yn llwyr ymwybodol o bwysigrwydd pellter cymdeithasol (2 fetr yma yng Nghymru) a gwneud pob ymdrech i osgoi cyffyrddiadau agos. Dylid osgoi ysgwyd llaw neu gofleidio hen ffrindiau neu pobl a gyflwynir i chi. Byddwch yn cael eich atgoffa'n gyson o hyn, felly peidiwch a theimlo fod y trefnwyr yn swian arnoch.
2. Bydd **Glanedydd Dwylo** ar gael ar y diwrnod ond pebai unigolion yn teimlo'n fwy diogel trwy wisgo gorchudd neu fwgwd gwyneb yna bydd hyn yn berffaith dderbyniol.
3. Er mwyn osgoi sefyllfa gyda gormod o bobl yn ymgynnull mewn un lle, bydd angen rhannu i îs-grwpiau ar adegau. Gofynnir i chi fod yn amyneddgar os bydd eich îs-grŵp chi'n gorfod disgwyl am ychydig cyn cael gweld a chlywed am y safle.
4. **Arwynebeddau** – Bydd un o'r gwirfoddolwyr yn agor a chau giatau ar eich rhan er mwyn osgoi cyffyrddiadau efo arwynebeddau caled. Byddwch yn ymwybodol o eraill wrth symud trwy'r giatau neu wrth gerdded llwybr cul, o.g.y.dd.
5. **Manylion Cyswllt** – Os ydych yn gwneud cais i ymuno a'r daith, rhaid i chi fod yn barod i roi eich enw (ac enw unrhyw berson arall fydd yn dod gyda chi), eich cyfeiriad, eich cyfeiriad e-bost, eich rhif ffôn a rhif ffôn symudol er mwyn hwyluso trefn Cyswllt, Ol-rhain ac Amddiffyn Llywodraeth Cymru.
6. **Cyfyngiad ar y niferoedd.** Mae rheoliadau Llywodraeth Cymru yn glir am y niferoedd sy'n cael cyfarfod oddi allan. Ni chaniateir mwy na 30 person i fod yn bresennol, ac felly defnyddir trefn 'y cyntaf i'r felin' wrth wneud cais i ymuno a'r daith.
7. **Cytundeb** – Os ydych yn penderfynu ymuno â'r daith ac os byddwch ymysg y 30 cyntaf, gofynnir i chi wneud datganiad i'r trefnwyr eich bod wedi darllen a deall y Canllawiau hyn. Gellir gwneud hynny unnai trwy e-bost neu trwy lythyr i'w drosglwyddo ar ddechrau'r daith. Dylid defnyddio'r geiriad " Rydwyf/Rydym wedi darllen y Canllawiau ac yn barod i gydymffurfio gyda Rheoliadau Covid-19 a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch fel y disgrifir hwy yn y canllawiau. Arwyddwyd ....".
8. **Trefnu Lle** – Fel y sonwyd uchod, dim ond nifer penodol sy'n gallu dod ar y daith a than drefn "y cyntaf i'r felin". Os ydych am ymuno, rhaid cysylltu efo Cadeirydd y Gymdeithas, Frances Lynch Llewellyn, cyfeiriad e-bost [flynchllewellyn@gmail.com](mailto:flynchllewellyn@gmail.com) a hynny erbyn Dydd Sul 13 Medi 2020.